**Adroddiad ynghylch Confensiwn Aarhus**

## Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2025, cafodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) gyflwyniad a oedd yn honni na fyddai Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn gallu cyflawni'r amcanion a fwriadwyd heb gynnwys yr hyn a elwir yn 'Egwyddorion Aarhus'. Mae fersiwn wedi'i olygu o'r cyflwyniad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein hymateb i'r cyflwyniad hwnnw ac yn mynd i'r afael hefyd â materion eraill sy'n ymwneud â'r Confensiwn.

## Confensiwn Aarhus

Mae'r Confensiwn[1] yn rhoi hawliau i aelodau'r cyhoedd dan dri philer:

- mynediad at wybodaeth amgylcheddol;
- cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol; a
- mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol.

Mae'r DU yn barti contractio i'r Confensiwn. Oherwydd ei fod yn gytuniad rhyngwladol, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ei weithredu. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn ei gwneud yn bosibl i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth amgylcheddol. Mae yna ddarnau niferus o ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol, ac mae'r llywodraeth yn cynnal ymgyngoriadau ynghylch polisi fel mater o drefn ar bob lefel. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n diogelu hawl y cyhoedd i gael mynediad at gyfiawnder ynghylch materion amgylcheddol. Yn hytrach, caiff yr hawl honno ei darparu drwy weithdrefnau adolygiadau barnwrol, a gaiff eu llywodraethu gan y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

[1] Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop: Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol

**Y cyflwyniad**

Roedd y cyflwyniad, a wnaed cyn i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) gael ei gyhoeddi, yn dadlau y dylai’r hawliau mynediad at wybodaeth amgylcheddol, cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol a mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol gael eu cyflwyno i gyfraith Cymru drwy eu hychwanegu at y Bil ochr yn ochr â’r egwyddorion sy’n ymwneud ag integreiddio, bod yn rhagofalus, atal, cywiro yn y ffynhonnell, a sicrhau mai’r llygrwr sy’n talu. Mae’r cyflwynydd yn dyfynnu sawl cyfeiriad ynghylch Confensiwn Aarhus, sydd wedi’u cynnwys yn y crynodeb o’r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch ei Phapur Gwyn *Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach*, ond mae’n nodi nad yw’r Papur Gwyn ei hun nac ymateb y Llywodraeth i’r ymgynghoriad yn cyfeirio at Egwyddorion Aarhus.

Barn y cyflwynydd yw y dylai’r egwyddorion hynny gael eu hymgorffori yng Nghyfraith Cymru ynghylch cynllunio a’r amgylchedd, ac y dylai’r ffyrdd y caiff hawliau Aarhus eu sicrhau ar gyfer dinasyddion Cymru gael eu nodi’n glir, os yw hynny’n rhan o gymhwysedd Cymru. Honnir bod methu ag ymgorffori’r egwyddorion yn cyfyngu ar hawliau dinasyddion Cymru ac yn golygu eu bod dan anfantais o gymharu â gwledydd eraill. Dywed wedyn y byddai hynny’n ei gwneud yn anodd i’r Bil gyflawni’r amcanion a fwriadwyd, a’i bod yn amlwg ei fod yn anghydnaws ag uchelgeisiau amgylcheddol blaengar Cymru.

**Statws Confensiwn Aarhus yng Nghymru**

Mae Cymru yn rhan gyfansoddol o’r DU. Felly, pan wnaeth Llywodraeth y DU gadarnhau’r Confensiwn yn 2005, mae’n sicr bod y Confensiwn i fod i gael ei roi ar waith yng Nghymru hefyd. Roedd y ddeddfwriaeth a oedd yn gweithredu ymrwymiadau’r DU dan y Confensiwn yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, y mae rhywfaint ohonynt yn benodol i Gymru. Mae’r Rheolau Trefniadaeth Sifil, y caiff mynediad at gyfiawnder ei weithredu danynt, yn perthyn i gylch gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac nid ydynt wedi’u datganoli. Felly, nid oes

corff o reolau cyfreithiol penodol i Gymru sy'n llywodraethu mynediad at gyfiawnder amgylcheddol.

**Safbwyntiau AIDAC**

Rydym yn cytuno â'r cyflwynydd bod y tair agwedd ar hawliau amgylcheddol, y mae Confensiwn Aarhus yn ymdrin â nhw, yn sylfaenol bwysig. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi ynglŷn â'r angen i gynnwys cyfeiriad penodol atynt fel egwyddorion, fel yr awgrymir yn y cyflwyniad. Yn ein barn ni, mae'r hawliau ymhlyg eisoes yng nghyfraith Cymru ac mewn polisi yng Nghymru, er enghraifft mewn darpariaethau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ystod trafodaethau am y cyflwyniad, tynnwyd ein sylw at yr haeriad nad yw Confensiwn Aarhus yn gyfraith amgylcheddol. Rydym o'r farn y gallai'r datganiad hwnnw fod wedi'i dynnu allan o'i gyd-destun. Mae ystyr 'cyfraith amgylcheddol' yng nghymal 29 y Bil yr un fath yn y bôn â'r ystyr mewn deddfwriaeth ar gyfer sefydlu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon[2] a Safonau Amgylcheddol yr Alban.[3] Mae'r term wedi'i gyfyngu i ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n perthyn i gymhwysedd y weinyddiaeth genedlaethol berthnasol. Er bod Confensiwn Aarhus yn bendant yn gyfraith ynglŷn â'r amgylchedd, mae'n dilyn nad yw'n perthyn i'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol ar gyfer unrhyw un o'r cyrff llywodraethiant amgylcheddol. Mae'n greadur cyfraith ryngwladol, felly nid yw'n berthnasol ond i'r graddau y mae wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig. Felly, bydd yr amryw ddarpariaethau sy'n ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol yn perthyn i'r diffiniad. Byddai'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn cael eu cynnwys hefyd heblaw am y ffaith eu bod wedi'u heithrio yn ffurfiol, a hynny'n ôl pob tebyg er mwyn osgoi gwrthdaro â'r cyfundrefnau cyfreithiol sy'n llywodraethu mynediad at wybodaeth.

[2] Deddf yr Amgylchedd 2021, adran 46.
[3] Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (Yr Alban) 2021, adran 44.

Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yna fwlch yn y Bil yng nghyswllt sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol arfaethedig Cymru ac yng nghyswllt y trydydd piler, sef mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol. Mae'r opsiwn i wneud cais am adolygiad barnwrol dan amgylchiadau penodol wedi'i gynnwys yn ffurfiol yn swyddogaethau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban.[4] Gallant hefyd wneud cais i ymyrryd yng ngweithrediadau adolygiadau barnwrol. Nid yw'r darpariaethau hynny wedi'u cynnwys yn y Bil yng nghyswllt Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen datgan y swyddogaeth hon yn ffurfiol, gan y byddai pwerau atodol Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn ei galluogi i wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn briodol at ddibenion ei swyddogaethau, neu mewn cysylltiad â'i swyddogaethau, neu yn ddeilliadol neu'n ffafriol i arfer y swyddogaethau hynny.[5] Awgrymwyd hefyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith[6] ei bod yn well peidio â dilyn fformat Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd/Safonau Amgylcheddol yr Alban, gan y byddai Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gallu gwneud cais am adolygiad barnwrol heb unrhyw gyfyngiad. Dim ond mewn achosion brys y gall Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban wneud hynny, lle mae ymddygiad awdurdod cyhoeddus yn gyfystyr â methiant difrifol i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. O ystyried y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi datgan ei fod yn fodlon nad yw'r Bil yn cynnwys cyfeiriad ffurfiol at adolygiad barnwrol.[7]

Nid ydym yn dawel ein meddwl. Er ein bod yn derbyn y gall unrhyw un wneud cais am adolygiad barnwrol, nid yw'n dilyn y bydd y cais yn llwyddiannus. Fel y nododd Ysgrifennydd y Cabinet, mater i'r llysoedd fyddai penderfynu a oedd gan Swyddfa

[4] Deddf yr Amgylchedd 2021, adran 39 a Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad Cyfreithiol) (Yr Alban) 2021, adran 38, yn eu tro.
[5] Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), Atodlen 1, Rhan 9, paragraff 23(1).
[6] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Sesiwn 18/09/2025, paragraff 195; Huw Irranca-Davies.
[7] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), Adroddiad Cyfnod 1, Hydref 2025, paragraff 257.

Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru statws ar sail prawf budd digonol.[8] Rydym yn cydnabod y byddai hynny'n wir, waeth a yw adolygiad barnwrol wedi'i gynnwys neu beidio fel un o swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Yn ein barn ni, fodd bynnag, bydd cadarnhau statws yn anos os na chaiff adolygiad barnwrol ei gynnwys yn y swyddogaethau. Er y gellid ystyried bod y pŵer i wneud cais wedi'i gynnwys yn y pwerau atodol, rydym yn credu ei bod yn bosibl iawn y gallai'r dull gweithredu hwn gael ei herio yn y llys gan y sawl sy'n gwrthwynebu'r cais, a hynny oherwydd nad oes unrhyw gyfeiriad penodol at swyddogaeth wedi'i nodi yn glir ar wyneb y Deddfau sy'n llywodraethu chwaer-gyrff Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Rydym wedi nodi'r sylwadau a wnaed gan yr Athro Bob Lee yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.[9] Mae'n cymharu'r adolygiad barnwrol o ddigwyddiad neu benderfyniad penodol â phwerau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru i ystyried problemau systemig yn hytrach na phenderfyniadau unigol. Heb gyfeiriad ffurfiol at adolygiad barnwrol, ceir perygl gwirioneddol y bydd y llysoedd yn gwrthod statws. O gofio llwyddiant cydnabyddedig ymyrraeth gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd mewn achosion adolygiadau barnwrol, rydym yn credu y byddai Cymru yn cael ei rhoi dan anfantais ddifrifol pe bai llys yn gwrthod statws Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru oherwydd diffyg cyfeiriad ffurfiol at ei swyddogaethau yng nghyswllt adolygiad barnwrol.

Gofynnodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a oedd yn wir nad oedd y ddarpariaeth wedi'i chynnwys oherwydd cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[10] Dywedwyd nad oedd hynny'n wir. Yn hytrach, nid oedd y ddarpariaeth wedi'i chynnwys oherwydd nad yw'n angenrheidiol gwneud hynny. Yn ogystal, ni fyddai Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn rhwym wrth y cyfyngiadau a bennwyd yn Neddfau'r DU a'r Alban, sy'n mynnu bod ceisiadau'n

[8] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Sesiwn 18/09/2025, paragraff 193; Huw Irranca-Davies.
[9] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Sesiwn 09/07/2025, paragraff 124.
[10] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Sesiwn 18/09/2025, paragraff 194; Julie Morgan.

ymwneud â methiannau difrifol i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.[11] Gellir deall pam y mae rhai rhanddeiliaid wedi camddeall y sefyllfa, fodd bynnag. Nodwyd mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid na fyddai wedi bod yn bosibl cynnwys darpariaethau o'r fath heb gytundeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymlaen llaw, a hynny oherwydd mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am lywodraethu mynediad at weithrediadau cyfiawnder. Gallai'r elfennau ymarferol sy'n gysylltiedig â chael y cytundeb hwnnw fod wedi arwain at oedi annerbyniol wrth lunio fersiwn terfynol y Bil. Gallai hynny fod wedi peri i randdeiliaid gredu y byddai Llywodraeth Cymru wedi hoffi cynnwys y ddarpariaeth pe bai amser wedi caniatáu hynny.

Nid ar chwarae bach y cychwynnir ar weithrediadau adolygiadau barnwrol, ac rydym yn credu ei bod yn annhebygol tu hwnt y byddai Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gofyn am adolygiad mewn unrhyw achosion ar wahân i'r achosion difrifol y mae'r brys mwyaf yn perthyn iddynt. Ein barn o hyd yw y byddai darpariaethau ffurfiol tebyg i'r rhai sy'n berthnasol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban yn ddymunol, ond rydym yn derbyn nad oes gobaith gwirioneddol y bydd y Bil yn cael ei newid. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai'r Bil yn fwy effeithiol gyda geiriad priodol sy'n egluro safbwynt Llywodraeth Cymru, fel y caiff ei grynhoi uchod, yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf pan gaiff ei phasio ac mewn unrhyw ddatganiad ynghylch swyddogaethau a phwerau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Yn y tymor hwy, rydym yn awgrymu y dylai'r Ddeddf gael ei diwygio er mwyn cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygiad barnwrol ac ymyrraeth.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at adolygiad barnwrol ac at ymyrryd mewn gweithrediadau yng nghyswllt y pwerau atodol yn Atodlen 1, Rhan 9, paragraff 23.**

[11] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Sesiwn 18/09/2025, paragraff 195; Huw Irranca-Davies.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod tymor nesaf y Senedd, gydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddiwygio'r Ddeddf er mwyn cynnwys darpariaeth ffurfiol i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru wneud cais am adolygiad barnwrol mewn achosion brys ac i ymyrryd.**

**Cydymffurfio â Chonfensiwn Aarhus**

Roedd y cyflwyniad hefyd yn cyfeirio at y feirniadaeth gyson o'r DU am fethu â glynu wrth ei rhwymedigaethau dan Gonfensiwn Aarhus. Mae'r Adroddiad Cenedlaethol diweddaraf gan y DU wedi'i gyflwyno fel atodiad a ddiweddarwyd i adroddiad 2021.[12] Cafodd ei lunio'n dilyn galwad am dystiolaeth, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Medi 2024.[13] Mae rhai o'r materion y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad yn dyddio'n ôl dros ddegawd ac yn ymwneud â phenderfyniadau Pwyllgor Cydymffurfio Confensiwn Aarhus a Chyfarfod y Partïon. Roedd y penderfyniad diweddaraf a fabwysiadwyd gan Gyfarfod y Partïon ym mis Hydref 2021 yn mynegi pryder am fethiannau i gydymffurfio â phenderfyniad blaenorol Cyfarfod y Partïon[14] a nifer o ganfyddiadau Pwyllgor Cydymffurfio Confensiwn Aarhus.[15]

Er bod rhai o'r canfyddiadau a fabwysiadwyd gan Gyfarfod y Partïon yn y gorffennol yn ymwneud â'r Alban a Gogledd Iwerddon yn unig, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â materion yng Nghymru a Lloegr.

Gan fod Confensiwn Aarhus yn gytundeb rhyngwladol, Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth y DU sy'n bennaf gyfrifol am fynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. Er pwysigrwydd sylfaenol yr hawliau amgylcheddol a sefydlwyd gan y Confensiwn hwn, ymddengys nad yw goruchwylio cydymffurfiaeth y DU â'r Confensiwn yn perthyn i gylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, Safonau Amgylcheddol yr Alban na Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol arfaethedig Cymru. Nid oes gan AIDAC bwerau i ystyried cydymffurfiaeth. Er hynny, hoffem achub

[12] Ar gael yma: https://aarhusclearinghouse.unece.org/national-reports/reports
[13] Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/access-to-justice-in-relation-to-the-aarhus-convention
[14] VI/8k.
[15] ACCC/C/2013/90, ACCC/C/2015/131 ac ACCC/C/2016/142.

ar y cyfle hwn i fynegi ein pryderon am y canfyddiad bod y DU wedi bod yn gweithredu'n groes i'r Confensiwn mewn sawl ffordd ers nifer o flynyddoedd.

## Atodiad 1 Cyflwyniad ynghylch Egwyddorion Aarhus

*C1. Rhowch grynodeb byr o'ch pryder:*

Dylai Egwyddorion Aarhus – hawliau mynediad at wybodaeth amgylcheddol, cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol a mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol – gael eu cyflwyno i gyfraith Cymru ochr yn ochr â'r egwyddorion sy'n ymwneud ag integreiddio, bod yn rhagofalus, atal, cywiro yn y ffynhonnell, a sicrhau mai'r llygrwr sy'n talu, sy'n rhan o'r Bil Egwyddorion a Bioamrywiaeth.

*C2. Pa un o'r tri chategori hyn sydd yn disgrifio eich pryder orau? Gallwch ddewis mwy nag un categori os yn briodol.*

*a. Nid yw'r gyfraith yn cyflawni'r amcanion a'r canlyniadau a fwriadwyd.* ☒

*b. Nid yw canllawiau neu wybodaeth am y gyfraith yn hygyrch.* ☐

*c. Mae rhoi'r gyfraith ar waith yn ymarferol wedi'i rwystro.* ☐

*C3. Eglurwch pam fod eich pryder yn perthyn i'r categori/categorïau a ddewiswyd gennych mewn ymateb i C2:*

Argymhellodd y Grŵp Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2020, sef 'Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd', y dylai Egwyddorion Aarhus gael eu cynnwys yn y Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach', yn cyfeirio o gwbl at Egwyddorion Aarhus.

Er bod y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024, yn nodi sawl cyfeiriad at Egwyddorion Aarhus gan ymatebwyr – e.e.

bod ‘Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r bil hwn i weithredu'r Confensiwn Aarhus yn fwy effeithiol sy'n rhoi'r hawl i'r cyhoedd ddal cyrff cyhoeddus yn atebol a mynnu gwybodaeth’; a bod angen ‘cynnwys Confensiwn Aarhus’ ac ‘ailddatgan Confensiwn Aarhus i Gyfraith Cymru fel rhan o’r ddeddfwriaeth hon’. Nid yw ymateb Llywodraeth Cymru i’r Papur Gwyn, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024, yn cyfeirio o gwbl at Egwyddorion Aarhus.

Nod y Bil yw ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru, atgyfnerthu llywodraethiant amgylcheddol a chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth. Wrth i Lywodraeth Cymru egluro’r Papur Gwyn, ac wrth i’r Prif Weinidog ategu hynny pan nododd fod y Bil yn flaenoriaeth ddeddfwriaethol yn y Senedd ar 9 Gorffennaf 2024, dywed Llywodraeth Cymru fod y Bil yn arwydd o ymrwymiad clir y Llywodraeth ‘bod gweithredu ac arwain wrth fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru’. **Os na chaiff Egwyddorion Aarhus eu cynnwys, rwy’n pryderu na fydd y gyfraith hon yn cyflawni ei hamcanion a fwriadwyd.**

Mae Egwyddorion Aarhus yn adlewyrchu’r tair hawl amgylcheddol weithdrefnol, sef hawliau mynediad at wybodaeth amgylcheddol, cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol a mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol. Cydnabyddir bod hawliau amgylcheddol gweithdrefnol yn allweddol i wella penderfyniadau amgylcheddol cenedlaethol a rhyngwladol ac i godi safonau cenedlaethol a rhyngwladol gwarchodaeth amgylcheddol o ganlyniad i hynny. Yn ôl Boyle, dyma’r ychwanegiad amgylcheddol pwysicaf at gyfraith hawliau dynol ers Datganiad Rio 1992 (Boyle, yn Peters 2018). Ceir tystiolaeth o rôl hanfodol hawliau amgylcheddol gweithdrefnol yn yr ymateb rhyngwladol i’r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur, wrth iddynt gael eu cynnwys yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd: Cytundeb Paris, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, a chonfensiynau rhyngwladol eraill.

Mae Egwyddorion Aarhus yn helpu i sicrhau bod buddiannau a gwybodaeth leoledig pobl y mae mater amgylcheddol yn effeithio arnynt yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Maent yn annog gweithredu cyfreithiau amgylcheddol a'u parchu; maent yn gwella ansawdd penderfyniadau amgylcheddol ac yn gwella dilysrwydd democrataidd penderfyniadau amgylcheddol. Mae'r budd democrataidd hwn yn arbennig o bwysig i faterion amgylcheddol, oherwydd nid yw natur materion amgylcheddol, sy'n golygu eu bod yn pontio'r cenedlaethau, yn pontio polisïau ac yn croesi ffiniau, yn cyd-fynd yn gysurus â strwythurau presennol democratiaeth gynrychiadol.

Mae gan Gymru gymhelliad ychwanegol dros sicrhau bod Egwyddorion Aarhus yn cael eu hymgorffori'n effeithiol yn ein hymateb cenedlaethol i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Mae Egwyddorion Aarhus yn cyd-fynd â 'cydweithio' a 'cynnwys' sydd ymhlith y ffyrdd o weithio a eglurwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Cymru. Mae Egwyddorion Aarhus yn cysylltu'r ffyrdd hyn o weithio â hawliau sydd wedi ennill eu plwyf ac â system gwyno ryngwladol sy'n monitro'r graddau y glynir wrth yr hawliau hyn. Felly, mae gan Gymru gyfle i fod yn arweinydd arloesol yn y maes hwn ac i ddefnyddio'r cysylltiadau rhwng y darn allweddol hwn o ddeddfwriaeth a rhwymedigaethau rhyngwladol y DU dan Gonfensiwn Aarhus.

Mae'r DU wedi cael ei beirniadu'n gyson am fethu â glynu wrth ei rhwymedigaethau dan Gonfensiwn Aarhus (gweler yr adroddiad diweddaraf gan Bwyllgor Cydymffurfio Confensiwn Aarhus, y dyfynnir ohono isod). Mae achosion wedi ymwneud yn aml â'r hawl i fynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol – roedd un o'r achosion diweddaraf a oedd yn ymwneud â'r hawl hon yn gysylltiedig â mater cynllunio yng Nghymru: *R (on the application of Catherine Lewis) v The Welsh Ministers v Velindre University NHS Trust* [2022] Uchel Lys Cymru a Lloegr 450 (Gwein.). Mae angen i'r DU fod yn fwy rhagweithiol wrth gyflawni ei dyletswyddau dan Gonfensiwn Aarhus.

Mae cynllunio a'r amgylchedd yn feysydd sydd wedi'u datganoli. Dylai Egwyddorion Aarhus gael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru ym maes cynllunio a'r amgylchedd,

a dylai'r ffyrdd y caiff hawliau Aarhus eu sicrhau ar gyfer dinasyddion Cymru gael eu nodi'n glir, os yw hynny'n rhan o gymhwysedd Cymru. Mae methu ag ymgorffori'r egwyddorion yn cyfyngu ar hawliau dinasyddion Cymru ac yn golygu eu bod dan anfantais o gymharu â gwledydd eraill. Byddai hynny'n ei gwneud yn anodd i'r gyfraith hon gyflawni'r amcanion a fwriadwyd, ac mae'n amlwg ei fod yn anghydnaws ag uchelgeisiau amgylcheddol blaengar Cymru.

*C4. Rhowch fanylion o'r gyfraith amgylcheddol sy'n berthnasol i'ch pryder, gan fod mor benodol â phosibl. Gallai hyn gynnwys enwau'r Ddeddf/Deddfau, Rheoliad(au), canllawiau, cyfraith achos neu ddogfennau perthnasol eraill. Nodwch yr adran(nau) neu'r cymal(au) perthnasol, os yn bosibl.*

Y Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth

*C5. Darparwch a disgrifiwch gymaint o dystiolaeth â phosibl er mwyn cefnogi eich cyflwyniad gan ddangos nad yw'r gyfraith amgylcheddol y cyfeirir ati uchod yn gweithio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth fel dogfennau, gohebiaeth, erthyglau o'r wasg, datganiadau o ffeithiau, ffotograffau neu gyngor cyfreithiol. Os yn bosibl, darparwch fanylion ar ffurf atodiad, dolen i'r we neu gyfeiriadau yn y ffurflen hon.*

*R (on the application of Catherine Lewis) v The Welsh Ministers v Velindre University NHS Trust* [2022] Uchel Lys Cymru a Lloegr 450 (Gwein.) [https://uk.westlaw.com/Document/I54D4FDA09BEA11EC99A3CEBD30D569E3/View/FullText.html](https://uk.westlaw.com/Document/I54D4FDA09BEA11EC99A3CEBD30D569E3/View/FullText.html)

Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop: Cyfarfod Partïon y Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol, *Decision VII/8s concerning compliance by the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland with its obligations under the Convention*, 18–20 Hydref 2021 (ECE/MP.PP/2021/2/Add.1)

https://unece.org/sites/default/files/2022-02/Decision_VII.8s_eng.pdf

Y Grŵp Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol, Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Mawrth 2020 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/adroddiad-gan-y-grwp-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol.pdf

Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach. Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2024
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-01/papur-gwyn-egwyddorion-amgylcheddol-llywodraethiant-a-thargedau-bioamrywiaeth.pdf

Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu, a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-07/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn-crynodeb-ymatebion.pdf

Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy. Papur Gwyn ar Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-07/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn-ein-hymateb_0.pdf

Alan Boyle, 'Human Rights and the Environment: Where Next?' (2012) 23 EJIL 613 yn Birgit Peters, 'Unpacking the Diversity of Procedural Environmental Rights' (2018) 30(1) JEL 1-27

https://academic.oup.com/jel/article-pdf/30/1/1/24480658/eqx023.pdf

*C6. Pa effaith / effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'ch pryder? Er enghraifft, pa fath o niwed amgylcheddol allai ddigwydd os na eir i'r afael â'ch pryder? Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol ar ddifrifoldeb y mater y dylai'r Asesydd Interim fod yn ymwybodol ohoni.*

Penderfyniadau amgylcheddol gwaeth, a gwarchodaeth amgylcheddol waeth o ganlyniad i hynny (gweler C3 uchod).

*C7. Nodwch unrhyw dystiolaeth isod i gefnogi eich ymateb i C6. Er enghraifft, data, ystadegau ac unrhyw arwydd a yw'r pryder yn un lleol neu'n cael effaith ledled Cymru.*

*C8. A yw eich pryder yn cael unrhyw effaith y tu allan i Gymru? Os felly, rhowch fanylion.*

Mae methiant i lynu'n llawn wrth Gonfensiwn Aarhus yn bryder ar draws y DU a thu hwnt. Fodd bynnag, dim ond yng Nghymru y byddai hepgor yr egwyddorion hyn o'r Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth yn cael effaith.

*C9. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ymchwiliadau cyfredol sy'n gysylltiedig â'ch pryder? Er enghraifft, gan un o Bwyllgorau'r Senedd, gan sefydliad ymchwil neu gan elusen amgylcheddol. Nodwch fanylion yr ymchwiliadau hyn isod:*

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ymchwiliadau cyfredol sy'n gysylltiedig â'r pryder hwn.

*C10. Ydych chi wedi hysbysu unrhyw sefydliad arall, fel rheoleiddiwr neu awdurdod lleol ynghylch eich pryder(on)?*

*Ydw ☐ Nac ydw ☒*

*Q11. Os gwnaethoch ateb* ***Ydw*** *i C10, rhowch fanylion y sefydliad rydych wedi'i hysbysu am eich pryder, y dyddiad hysbysu, a chanlyniad eich adroddiad. Os yn bosibl, rhowch dystiolaeth ategol ar gyfer y broses adrodd hon yn y blwch isod drwy gyfrwng atodiad neu ddolen gwefan neu atgyfeiriadau yn y ffurflen hon.*

*C12. Pa gam neu gamau gweithredu hoffech chi eu gweld yn cael eu cymryd mewn ymateb i'ch cyflwyniad? Er enghraifft, a fyddai newid mewn deddfwriaeth gyfredol yn mynd i'r afael â'ch pryder? Rhowch fanylion am y camau gweithredu hyn isod:*

Hoffwn i Egwyddorion Aarhus gael eu cynnwys yn y Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Bioamrywiaeth.